OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin o Raglan i'r Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *21 Chwefror 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Gerbytffordd tua't Gorllewin o Raglan i'r Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Westbound Carriageway from Raglan to Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *17 February 2025* |
| *Coming into force* | *21 February 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Westbound Carriageway from Raglan to Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 21 February 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhaglan hyd at ei chyffordd â Chyfnewidfa Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy.

### Cymhwyso

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Chwefror 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A40 Raglan to Llandovery trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 20:00 hours on 21 February 2025 and ending when the temporary traffic signs are removed.

### Prohibition

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the western side of Raglan Roundabout to its junction with Hardwick Interchange, Abergavenny, Monmouthshire.

### Application

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 17 February 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government